**YN YMCHWILIAD COVID-19 Y DU**

**Gerbron y Gwir Anrhydeddus Farwnes Hallett DBE**

---

**CYFLWYNIADAU YSGRIFENEDIG LLYWODRAETH CYMRU**

**AR GYFER GWRANDAWIAD RHAGARWEINIOL MODIWL 9**

**AR 23 HYDREF 2024**

---

1. Mae Llywodraeth Cymru yn ailddatgan ei hymrwymiad llwyr i'r Ymchwiliad a'i dyfarniad i gydweithredu yn y modd llawnaf posibl, er mwyn i'r penderfyniadau a wnaeth fel ymateb i'r pandemig fod yn destun craffu trwyadl. I'r perwyl hwnnw, ac fel ym mhob modiwl arall, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr Ymchwiliad yn cael yr holl dystiolaeth y mae'n ei cheisio ac sydd arno ei hangen i gyflawni ei gylch gorchwyl.

2. Mae gwneud penderfyniadau economaidd, gan gynnwys cymorth i fusnesau, cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, y sectorau gwirfoddol a chymunedol a chymorth i bobl agored i niwed yng Nghymru, yn ganolog i Fodiwl 9 ac mae'n fater sydd wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru.

3. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ac yn croesawu cadarnhad yr Ymchwiliad, yn hytrach na disgwyl i ddisgrifiad naratif gael ei bennu o'r mesurau economaidd a gymerwyd gan lywodraethau yn y Deyrnas Unedig, fod diddordeb arbennig ganddo yn y systemau a'r strwythurau a ffurfiodd yr ymateb economaidd i'r pandemig ac mewn gwerthusiad o'r mesurau economaidd a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig.

4. Mae Llywodraeth Cymru yn deall yn llawn bwysigrwydd cydnabod yr anawsterau a ddioddefwyd gan bobl o wahanol gymunedau a chefndiroedd, gan gynnwys y rhai a oedd mewn mwy o berygl neu'n agored i niwed fel arall, ac mae'n croesawu'r arwydd bod cydraddoldeb ymyriadau economaidd, gan gynnwys cydraddoldeb effaith, i gael ei ystyried ym Modiwl 9.

5. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru amrediad o ddadansoddiadau polisi ac economaidd mewn perthynas â'r pandemig a'i effaith ar economi Cymru a datblygodd ymyriadau i gefnogi busnesau a gweithwyr.

6. Cafodd mentrau economaidd penodol eu sefydlu yng Nghymru, ac roeddent yn neilltuedig i'r ymateb economaidd ar gyfer y DU gyfan. Roedd hyn yn cynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd (ond heb fod yn gyfyngedig iddi) – hwn oedd y cynllun ariannol craidd a oedd yn darparu cymorth ariannol i fusnesau a sefydliadau cymwys yng Nghymru a oedd yn wynebu heriau gweithredol ac ariannol.

7. Roedd y Gronfa Cadernid Economaidd yn ategu'r cronfeydd penodol ar gyfer y sectorau lletygarwch, twristiaeth a hamdden a'r cadwyni cyflenwi cysylltiedig a'r Gronfa Adferiad Diwylliannol. Roedd dadansoddiad economaidd yn sail i bob cylch o geisiadau am grantiau o'r Gronfa Cadernid Economaidd. Cynhaliwyd archwiliadau rheolaidd o weithrediad y Gronfa (yn enwedig mewn perthynas â'i heffaith), i sicrhau ei bod yn cefnogi'r rhai a oedd mewn mwyaf o angen ar bwynt penodol mewn amser, ee y sectorau manwerthu, lletygarwch a thwristiaeth.

8. Cefnogwyd y gwaith o asesu ymyriadau economaidd posibl gan Is-grŵp Niwed Economaidd-gymdeithasol Grŵp Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru. Rhoddodd yr is-grŵp gyngor arbenigol i'r Grŵp Cyngor Technegol a wnaeth, yn ei dro, gynghori'r Gweinidogion ar ymyriadau polisi a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig a pharatoi gwybodaeth friffio iddynt am yr ymyriadau hynny. Yn ogystal â hyn, cyfarfu Bwrdd Cynghori Gweinidog yr Economi yn rheolaidd drwy gydol y pandemig i ddarparu gwybodaeth, tystiolaeth, her a chymorth gwerthfawr i'r Gweinidog.

9. O dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn ei ystyried yn briodol i hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol Cymru. Gan ddefnyddio'r pwerau hyn, sefydlwyd Cynllun Cymorth Hunanynysu i Gymru fel cynllun dewisol â'r diben o leddfu'r rhwystrau ariannol a wynebwyd gan bobl ar incwm isel pan oedd angen iddynt hunanynysu.

10. Drwy gydol y pandemig, gweithiodd Llywodraeth Cymru gydag awdurdodau lleol i sicrhau y gallai busnesau manwerthu, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth nad ydynt yn hanfodol gael cymorth gan y grantiau cysylltiedig ag Ardrethi Annomestig a oedd yn cael eu gweinyddu gan yr awdurdodau lleol. Cafodd cronfa ddewisol ei gweinyddu gan yr awdurdodau lleol hefyd – cronfa a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru – ar

gyfer unig fasnachwyr, gweithwyr llawrydd a gyrwyr tacsis a busnesau a oedd yn cyflogi pobl ond nad oeddent yn talu ardrethi busnes.

11. Yn dilyn y cwymp sydyn a llym yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ddechrau'r pandemig (lleihad o 95%), ariannodd Llywodraeth Cymru weithredwyr bysiau a rheilffyrdd ar lefelau'r galw cyn Covid-19 i gynnal amserlen sylfaen a fyddai'n galluogi gweithwyr allweddol i gyrraedd y gwaith ac i'r rhai heb gar i deithio i siopau ar gyfer cyflenwadau bwyd a meddygol hanfodol.

12. Darparodd y Gronfa Galedi ar gyfer y Sector Bysiau gymorth ar unwaith ar ddechrau'r pandemig. Yn dilyn hynny, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau ym mis Gorffennaf 2020 i gefnogi'r ddarpariaeth o rwydwaith integredig a hyblyg er mwyn sicrhau bod y cyflenwad yn cyd-fynd â'r galw, i gynnal gwasanaethau hyblyg, ac i ddyrannu unrhyw gyllid ychwanegol angenrheidiol.

13. Cafodd 'Cytundeb Mesurau Brys' ei gymeradwyo ym mis Mai 2020 i helpu gwasanaethau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru i ymdopi ag effeithiau parhaus y pandemig. Daeth hyn yn dilyn cytundeb tymor byr cychwynnol a gadarnhawyd ym mis Mawrth 2020.

14. Cafodd camau sylweddol eu cymryd gan Lywodraeth Cymru hefyd i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus ac unigolion agored i niwed yn ystod y pandemig. Darparwyd cyllid ychwanegol ar gyfer gofal iechyd, llywodraeth leol a gwasanaethau addysg. Roedd Cronfa Galedi Llywodraeth Leol yn cefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol hanfodol, ac roedd yn sicrhau bod ysgolion yn gallu addasu i ffyrdd newydd o weithio. Cafodd y gronfa ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a rhoddwyd cyllid ychwanegol i gefnogi'r Gronfa Cymorth Dewisol a oedd yn rhoi cymorth i'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru yn ystod y pandemig.

15. Darparodd Llywodraeth Cymru ddwy ffrwd gyllido o dan Gronfa Ymateb Covid-19 y Trydydd Sector i'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, gan gynnwys elusennau a sefydliadau nid-er-elw yng Nghymru, cyrff a oedd yn wynebu pwysau ariannol a gweithredol enfawr yn ystod y pandemig. Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector oedd y ffrwd gyllido gyntaf: rhoddodd y gronfa hon gymorth ariannol uniongyrchol i elusennau a sefydliadau'r trydydd sector drwy gydol yr argyfwng Covid-19 i helpu i dalu biliau a hwyluso llif arian parod. Cronfa Frys y Gwasanaethau Gwirfoddol oedd yr ail ffrwd gyllido: rhoddodd y gronfa hon gymorth i sefydliadau'r trydydd sector yn y

gymuned i gydlynu ymateb gwirfoddolwyr ledled Cymru ac i helpu sefydliadau i dalu treuliau a ariannwyd o bocedi'r gwirfoddolwyr eu hunain.

16. Wrth ddarparu cymorth i fusnesau ac i'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, roedd Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â busnesau ar gyfer creu'r pecynnau cymorth economaidd. Cymerodd Llywodraeth Cymru gamau hefyd i gyfathrebu yn y Gymraeg â sefydliadau a oedd yn gweithio drwy gyfrwng yr iaith. Roedd y cyrff hynny yn gallu cael gafael ar gymorth drwy gyfrwng y Gymraeg ac, felly, sicrhawyd nad oeddent o dan anfantais ddiangen wrth gael gafael ar wybodaeth am y cymorth oedd ar gael. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys arolwg cymunedol o effaith cyfyngiadau'r pandemig ar wirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg ac ar y defnydd o'r Gymraeg. Darparwyd cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru hefyd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Gŵyl y Gelli ac ar gyfer mudiad Urdd Gobaith Cymru i helpu gydag effaith Covid-19.

17. Mae rhai pynciau ym Modiwl 9 sydd y tu hwnt i gymhwysedd gweithredol datganoledig Gweinidogion Cymru. Mae hawliau cyflogaeth (gan gynnwys buddion a thâl salwch) yn faterion a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU. Er nad oedd Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan ym mhenderfyniadau Llywodraeth y DU yn y meysydd hyn, cafodd pobl Cymru eu heffeithio'n uniongyrchol ganddynt a bydd Llywodraeth Cymru yn darparu tystiolaeth am eu heffaith yng Nghymru.

18. Wrth i'r Ymchwiliad symud ymlaen i'w nawfed modiwl, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymdrechu i ddysgu gwersi o'r ffordd yr aed i'r afael â'r pandemig. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'n ddiffuant y pwysigrwydd parhaus priodol a roddir i "Mae Pob Stori o Bwys". Bydd deall profiad dynol y rhai a oedd wedi cael mynediad (neu'r rhai nad oeddent wedi ceisio mynediad neu nad oedd yn bosibl iddynt gael mynediad) at y cynlluniau economaidd a gynigiwyd yn y pedair gwlad yn rhan ganolog o waith yr Ymchwiliad.

19. Mae cwmpas Modiwl 9 a'r llwybrau ymholi a nodwyd yn nodyn y Cwnsleriaid i'r Ymchwiliad yn codi materion pwysig sydd o bwys pellgyrhaeddol i'r pedair llywodraeth. Mae'r materion hynny yn cynnwys cydraddoldeb mynediad at gymorth; y rhesymau dros unrhyw wahaniaethau yn y cymorth a ddarparwyd; a'r cwestiwn a gafodd ymyriadau gan y llywodraeth effaith anghyfartal, gan gadw mewn cof y rhai a oedd mewn mwy o berygl o galedi ariannol neu a oedd yn agored i niwed, boed yn economaidd neu fel arall.

20. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad arbenigol ar gyllid datganoledig a llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae'n gofyn i'r Ymchwiliad sicrhau bod pob adroddiad arbenigol a lunnir ar gyfer Modiwl 9 yn rhoi ystyriaeth briodol i faterion datganoledig yn ogystal ag economïau neilltuol a gwahanol y pedair gwlad. Er enghraifft, un o nodweddion economi Cymru yw'r nifer sylweddol o ficrogwmnïau. Dylai effaith mesurau economaidd ar nodweddion diffiniol economïau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon fod yn bwynt ymchwilio pwysig yn y Modiwl hwn. At hynny, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn bod ceisiadau am dystiolaeth sy'n cael eu hanfon at gyrff perthnasol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu hanfon hefyd i'r cyrff cyfatebol yng Nghymru. Bydd gweithredu fel hyn yn sicrhau bod yr Ymchwiliad yn llunio darlun mor gyflawn ag sy'n bosibl o'r dystiolaeth.

21. Yn ystod y pandemig, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru yn rheolaidd â phartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau sy'n gynrychioliadol o fusnesau Cymru a sefydliadau'r DU fel Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach, Siambrau Masnach Prydain a Make UK. Mae Llywodraeth Cymru yn falch o weld bod y sefydliadau hyn wedi derbyn holiaduron i gefnogi ei gwaith yn y Modiwl hwn. Byddem hefyd yn awgrymu bod holiaduron yn cael eu hanfon at sefydliadau datganoledig penodol eraill a chwaraeodd ran bwysig i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yng Nghymru, bydd Consortiwm Manwerthu Cymru, Cyngres Undebau Llafur Cymru a chyrff megis Banc Datblygu Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Diwydiant Cymru a Chwmni Egino mewn sefyllfa dda i ddarparu gwybodaeth werthfawr i'r Ymchwiliad.

22. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn y modiwl hwn yn sicrhau bod gan y Llywodraeth Cymru hon, a phob Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, yr wybodaeth orau bosibl i baratoi ar gyfer unrhyw heriau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol, ac i ymateb iddynt.

**11 Hydref 2024**